# Y gair yn dal i ddisgleirio

Bob blwyddyn ers 30 mlynedd mae Aled Davies wedi bod yn gwneud ei bererindod blynyddol i Sandown Park yn Esher, swydd Surrey, ar gyfer Arddangosfa Genedlaethol Adnoddau Cristnogol (CRE). Dyma'i argraffiadau o'r gynhadledd a gynhaliwyd fis Hydref eleni.

I'r rhai nad ydynt yn gyfarwydd â'r arddangosfa flynyddol hon, dychmygwch grwydro maes yr Eisteddfod Genedlaethol neu gae'r Sioe Fawr yn Llanelwedd. Ond, yn hytrach na'r arlwy llenyddol neu amaethyddol, mae'r cynnwys i gyd yn grefyddol. Ar faes Sandown Park, yr hyn a geir yw tua 300 o stondinau amrywiol, gyda phob un o'r rheini'n cynnig adnodd i hyrwyddo gwaith ein heglwysi. O gwmpas y maes ceir ystafelloedd seminar a chynhadledd ag amrywiaeth o siaradwyr diddorol – ar waith plant, cenhadu, cyfathrebu a cherddoriaeth.

Mae'n lle delfrydol i weld danteithion newydd o'r wasg, ac yn gyfle i glywed y newyddion diweddaraf am wasanaethau a darparwyr Cristnogol. O systemau gwresogi i lungopïwr, o lyfrau emynau i'r dechnoleg ddiweddara ar gyfer gwe-ddarlledu, o gwmnïau gwyliau i Balestina i wybod am y bererindod ddiweddaraf, mae'n gyfle gwirioneddol wych i weld drosoch eich hun yr hyn sy'n digwydd ym maes Cristnogaeth ym Mhrydain. Daw tua 10,000 o bobl ynghyd dros y tridiau, ac mae llawer o brynu a gwerthu'n digwydd yn ystod y cyfnod hwn.

Eleni, ar ôl methu cynnal CRE 2020, roedd y pwyslais ar ddyfodol yr eglwys 'hybrid'. Cafwyd cyfle i fynychu sawl seminar yn trafod ffyrdd o integreiddio technoleg i oedfa draddodiadol. Mae'n debyg fod yr eglwysi ym Mhrydain, o bob traddodiad, wedi ymateb yn rhyfeddol i her y cyfnod clo. Yn wir, ar y bore Sul cyntaf yn dilyn y clo fe lwyddwyd i ddymchwel Zoom gyda'r holl alw annisgwyl wrth i gapeli gyfarfod ar hyd a lled gwledydd Prydain.

Ond y drafodaeth fawr eleni oedd sut mae modd cyfuno oedfa wyneb yn wyneb â gwe-ddarlledu, a chreu profiad ystyrlon i'r rhai yn y capel, a'r rhai adref ar eu haelwyd. Roedd pawb yn unfrydol gytûn fod y byd wedi newid, a bod y dechnoleg yma i aros. Amcangyfrifir bod y nifer oedd yn mynychu oedfa'n rheolaidd yn ystod 2020 wedi codi 15% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol – â Zoom yn bennaf cyfrifol am hynny. Mae'n debyg y gwelwn fwy a mwy o raglenni a meddalwedd yn cael eu lansio yn ystod y flwyddyn nesaf a fydd yn cynnig pecynnau hollgynhwysol i eglwysi i'w galluogi i wella




safon ac ansawdd y darlledu. Roedd nifer o gwmnïau newydd wedi eu sefydlu dros y cyfnod clo yn cynnig gweithio ag eglwysi er mwyn gwella safon y darlledu, a llawer o'r eglwysi mwy eu maint wedi buddsoddi ar gyfartaledd tua £50,000 i gael yr offer delfrydol. Ond da oedd clywed rhai hefyd yn pwysleisio nad safon y cynhyrchiad ond safon y cynnwys fyddai'n bennaf cyfrifol am gadw cynulleidfa'n fodlon ac yn ffyddlon i'r arlwy.

Cynhaliwyd un gweithdy arbennig lle trafodwyd natur a chynnwys ein canu, ac un dyfyniad diddorol a glywais oedd: 'Tybed ydyn ni yn y gorffennol wedi bod yn euog o orbwysleisio'r elfen "mawl a chlod" yn ein haddoliad, ond heb roi lle a gofod digonol i "eiriolaeth a galarnadu"?' Yn wyneb Covid-19, dywedodd Graham Kendrick (awdur geiriau Saesneg gwreiddiol yr emynau 'Gair Disglair Duw' ac 'Y Brenin Tlawd') ei fod yntau wedi ei herio a'i arwain gan Dduw i ysgrifennu mwy am alarnadu dros y 18 mis diwethaf. Nododd fod llawer yn pwyso ar y Salmau am ysbrydoliaeth wrth gyfansoddi caneuon mawl, ond eto mae dros 60% o gynnwys y Salmau yn alarnadau, ac nid yn eiriau o fawl.

Profiad gwerthfawr i mi yn bersonol oedd cael cyfle i sgwrsio â Graham Kendrick ar y diwedd, gan gael cyfle i ddiolch iddo am ei gynnyrch ar hyd y blynyddoedd, deunydd sydd wedi cael derbyniad cynnes iawn yng Nghymru wrth gwrs, wrth i'w emynau gael eu cyfieithu i'r Gymraeg. Soniais wrtho am waith y wefan gobaith.cymru, sy'n awdurdodi ac yn cofrestru fersiynau Cymraeg, ac roedd yn wir ddiolchgar am hyn. Un emyn o'i eiddo a gyfieithwyd yn ddiweddar i'r Gymraeg (ac sydd ar wefan gobaith.cymru) gan Linda Lockley yw 'Nid yn fy eiddo oll mae 'ngwerth' [My worth is not in what I own]. Dyma'r geiriau:

Nid yn fy eiddo oll mae 'ngwerth
Nac yn fy ngallu, bri, na'm nerth,
Ond yng nghlwyfau costus cariad pur
Ar y groes.

Fy ngwerth, nid dawn nac enw yw
Nac ymffrost, gwarth na'm ffordd o fyw,
Ond yn Ei waed a lifodd gynt
Ar y groes.

Llawenhau wnaf yn fy Mhrynwr –
Drysor Gwerthfawr
Tarddle f'enaid gwan.
Nid mewn dim 'mond yn f'Achubwr
Bodlonwyd f'enaid – Crist yw'm Rhi a'm
rhan.

Fel blodau'r haf diflannu wnawn,
Clod, i'enctid, hoen fel byr brynhawn,
Ond bywyd bythol eilw'n glir
Ar y groes.

Ni froliaf fyth mewn aur neu fri
Yng ngallu dyn, ei rwysg na'i ru,
Ymffrostio wnaf yn f'annwyl Grist
Ar y groes.

Cyffesaf ddau ryfeddod mwy' –
Fy ngwerth a'm hannheilyngdod llwyr;
Fy nyled – talodd Crist hi'n llawn
Ar y groes.



Y cynrychiolwyr o Gymru yng Nghyfarfod Blynyddol Cymorth Cristnogol yn Llundain. Beti-Wyn James, Llywydd Undeb yr Annibynwyr; Nan Powell-Davies, Cadeirydd Cymorth Cristnogol yng Nghymru; Evan Morgan, Llywydd EBC; Robert Nicholls, gweinidog Eglwys Gymraeg Canol Llundain.

Cynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol Cymorth Cristnogol, a braint i mi oedd bod yno yn Llundain ar ran Eglwys Bresbyteraidd Cymru i drosglwyddo cadeiryddiaeth yr elusen o Rowan Williams i John Sentanu, cyn-Archesgob Efrog. Roedd yn gyfle hefyd i ddiolch i Rowan Williams am ei waith i gyd. Dymunwn yn dda i'w olynydd, ac fe fyddwn fel enwad yn parhau i gefnogi Cymorth Cristnogol yn lleol a thrwy ein hapêl 'Hadau Gobaith' a gafodd ei lansio yng Nghymanfa Gyffredinol 2021.

*Evan Morgan,*
*Llywydd y Gymanfa Gyffredinol*